**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 15 Mawrth 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | S J Gallagher | L S Gibbard |
| D W Helliwell | B Hopkins | L James |
| L R Jones | M A Langstone | |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| Emma Pole | Pennaeth Ysgol yr Esgob Vaughan |
| Gareth Davies | Dirprwy Bennaeth Ysgol yr Esgob Vaughan |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Michelle Roberts | Scrutiny Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C Anderson, M Durke, S M Jones a/ac L J Tyler-Lloyd

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cofnodion.**

Derbyniwyd nodiadau a llythyrau gan y panel

3 **Cyfarfod Paratoi gyda'r Ymgynghorydd Herio ar gyfer Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan gyda Rob Davies**

Daeth Rob Davies, yr Ymgynghorydd Herio ar gyfer Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan, i'r cyfarfod a thrafododd gynnydd yn yr ysgol ag aelodau'r panel. Nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Yn 2016, nodwyd nifer o faterion yn yr ysgol a oedd wedi peri pryder ac yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, yn enwedig: yr angen am arweinyddiaeth sefydlog a chref, cyfarpar dadansoddi data academaidd a diffyg ariannol mawr.

- Derbyniodd yr ysgol becyn cefnogaeth 'ambr' y llynedd ac mae bellach yn y categori 'melyn'. Mae'r Pennaeth a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi croesawu'r gefnogaeth a roddir.
- Penodwyd Pennaeth gweithredol ac Uwch-dîm Arweinyddiaeth newydd ym mis Medi 2016 ac ers hynny mae nifer o fesurau wedi'u rhoi ar waith i greu gwelliannau yn yr ysgol. Mae hyn wedi creu arweinyddiaeth gryfach a mwy sefydlog yn yr ysgol, cynnydd mewn perfformiad academaidd a lleihau'r diffyg ariannol.
- Ym mis Ionawr, cynhaliwyd arolygiad gan Estyn yn yr ysgol sydd wedi rhoi tystiolaeth o ddarlun mwy cadarnhaol, yn unol â sut roedd yr Ymgynghorydd Herio wedi asesu cynnydd yr ysgol. Dywedwyd na chyhoeddir canlyniad yr arolygiad tan 4 Ebrill.

4 **Sesiwn gydag Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan**

Daeth Pennaeth a Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan i gyfarfod y panel i drafod cynnydd yr ysgol a'r rhagolygon am welliant â'r panel. Nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Y gefnogaeth yr oedd yr ysgol wedi'i derbyn gan yr awdurdod lleol, ERW ac ysgolion eraill.
- Y gefnogaeth ar gyfer hyfforddi arweinwyr ysgolion newydd a darpar arweinwyr ysgolion, a'r angen i gynnwys rheoli cyllid ac adnoddau dynol yn y pecyn dysgu.
- Y gwaith i wella perfformiad disgyblion a chanlyniadau yn yr ysgol, y gwelliannau a wnaed a'r meysydd y mae angen gwelliant arnynt o hyd.
- Y modd dyfeisgar y defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion i wella perfformiad disgyblion PYDd.
- Y gwaith parhaus i reoli a lleihau'r diffyg ariannol a goblygiadau unrhyw ostyngiadau grant.  Clywsom y bydd hyn yn effeithio'n anghymesur ar yr ysgol oherwydd y gostyngiadau o ran niferoedd disgyblion, y newidiadau sydd ar ddod i'r gefnogaeth a geir gan y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r gostyngiadau i'r gyllideb ôl-16.
- Presenoldeb a gwaharddiadau
- Cyflwr rhai o adeiladau'r ysgol a'r angen i wneud gwaith cynnal a chadw sylweddol neu ddisodli rhai agweddau.

O'r drafodaeth hon â'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth a'r Ymgynghorydd Herio, daethom i'r casgliad bod darlun llawer gwell yn yr ysgol o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2016. Roeddem yn teimlo bod hyn yn bennaf oherwydd y rhesymau canlynol:

- Mae gan yr ysgol bennaeth newydd a hyderus bellach ac mae'r uwch-dîm arweinyddiaeth yn dangos eu bod yn greadigol ac yn arloesol wrth gyflwyno gwelliannau yn yr ysgol.
- Mae arweinwyr ar bob lefel yn yr ysgol, a staff yr ysgol, yn cydweithio ac yn ymateb yn dda i'r ymgyrch i wella canlyniadau disgyblion.
- Mae'r ysgol wedi croesawu cefnogaeth a her gan yr awdurdod lleol, yr Ymgynghorydd Herio, ac asesu cefnogaeth ysgol i ysgol.
- Mae'r ysgol yn gweithio gyda'r Ymgynghorydd Herio i ddatblygu proses hunanwerthuso.
- Ceir sefyllfa ariannol well o lawer yn yr ysgol a chynllun clir i gael gwared ar y diffyg.

- Mae gan yr ysgol gynlluniau ystyriol i gefnogi disgyblion o gefndiroedd diamddiffyn. Drwy ddefnyddio'i Grant Amddifadedd Disgyblion, mae'r ysgol yn canolbwyntio ar wella canlyniadau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd a thorri'r cyswllt rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion ar gyfer disgyblion PYDd. Nodwyd gan Estyn bod hyn yn arfer da ac yn haeddu cael ei rannu ag ysgolion eraill.

Fodd bynnag, cydnabu'r panel fod rhai meysydd penodol y mae angen eu gwella ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r rhain drwy barhau i geisio cefnogaeth 'ysgol i ysgol' a chymorth gan yr Ymgynghorydd Herio ac arbenigwyr pynciau yn ei phrosesau hunanwerthuso, mathemateg a gwyddoniaeth a deilliannau yn y 6$^{ed}$ Dosbarth. Roedd y panel yn teimlo y dylid penodi Pennaeth parhaol yn fuan i sicrhau sefydlogrwydd wrth symud ymlaen.

Llongyfarchwyd y Pennaeth, staff yr ysgol, yr Ymgynghorydd Herio a'r corff llywodraethu yn yr ysgol gan y cynghorwyr am y gwelliannau a wnaed yn yr ysgol ers 2016 ac maent yn edrych ymlaen at weld hyn yn parhau o sylfaen gref bellach. Yn gyffredinol, roedd y cynghorwyr yn falch o weld y tîm arweinyddiaeth newydd a chryf yn symud yr ysgol yn ei blaen ac yn enwedig byddent yn dathlu'r modd y mae'r ysgol yn defnyddio dulliau meddwl blaengar i ddatrys yr heriau y mae'n eu hwynebu.

Bydd y panel yn gofyn i Aelod y Cabinet ymateb i'r pwyntiau canlynol.

1. Rydym yn argymell penodi uwch-dîm arweinyddiaeth parhaol yn fuan i sicrhau sefydlogrwydd a gwelliant parhaus.
2. A ellir mewn rhyw fodd liniaru goblygiadau ariannol gostyngiadau cyllideb ar draws nifer o wasanaethau a fydd yn effeithio ar yr ysgol?
3. Sut gellir mynd i'r afael â phroblemau cynnal a chadw a allai fod yn ddifrifol mewn rhai o adeiladau'r ysgol?
4. Rydym yn argymell bod y gefnogaeth a'r hyfforddiant ar gyfer arweinwyr newydd a darpar arweinwyr ysgolion yn cynnwys rheoli adnoddau dynol a materion ariannol.

## 5 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Mae dau gyfarfod nesaf y panel wedi'u trefnu fel a ganlyn:

17 Mai 2018 – trosolwg o faterion allweddol sy'n wynebu addysg a chynllunio gwaith y flwyddyn ddinesig sydd i ddod

7 Mehefin 2018 – Gwyddoniaeth mewn ysgolion yn Abertawe

## 6 Eitem Er Gwybodaeth

Nodwyd yr wybodaeth hon gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm